**LC1429**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## The Avian Influenza (H5N1 in Poultry) (Wales) Order 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn trosi Penderfyniad y Comisiwn 2006/415/E sy’n trafod mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â ffliw adar pathogenig iawn o’r is-deip H5N1 mewn dofednod yn y Gymuned ("Penderfyniad y Comisiwn"). Mae’r Gorchymyn yn ychwanegu at y mesurau cyffredinol i reoli ffliw adar a bennir yn y gorchymyn, The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No 2) Order 2006. Pennir mesurau i reoli’r ffliw adar pathogenig iawn o’r is-deip H5N1 mewn adar gwyllt yn y gorchymyn, The Avian Influenza (H5N1 in Wild Birds) (Wales) Order 2006. Gwnaed y Gorchymyn gan ddefnyddio’r Weithdrefn Weithredol ar 12 Rhagfyr, a daeth i rym y diwrnod canlynol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae adran 87(4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn cynnwys diffiniad cyfyngedig o ddofednod. Estynnwyd y diffiniad hwn gan erthygl 2(1) o Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 i gynnwys pob math o adar. Mae Erthygl 2 o’r Gorchymyn presennol yn awgrymu ei fod yn cyfyngu ar y diffiniad hwnnw, ond ni enwyd unrhyw bwer a fyddai’n galluogi i hynny gael ei wneud. Mae’r pwer priodol wedi’i gynnwys yn adran 87(5), a dylai fod wedi’i enwi. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 2 yn dehongli’r term "The Act" fel "The Animal Health Act 1981", ond nid yw’r term hwnnw’n cael ei ddefnyddio ar ôl hynny. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 10(3)(b) yn rhoi caniatâd i arolygwyr milfeddygol roi trwydded ar gyfer symudiad wyau sy’n deor "if the premises where the eggs were collected contain poultry which the National Assembly is satisfied have tested negative…" Gellir dehongli hyn fel caniatâd i roi trwydded hyd yn oed os oes rhai adar wedi cael canlyniad positif yn bresennol, cyn belled â bod rhai wedi cael canlyniad negyddol. Ymddengys nad dyna’r bwriad. Byddai rhoi’r gair "only" ar ôl "contain" yn esbonio’r sefyllfa’n well. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain a fyddai wedi bod yn addas i’w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Dim ond drwy ddeddfwriaeth bellach y gellir eu cywiro nawr, ond nid ystyrir hyn yn angenrheidiol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn Saesneg yn unig. Penderfynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn unol â Rheol Sefydlog 24.3 na fyddai’n ymarferol bosibl i wneud y Gorchymyn yn ddwyieithog pe byddai’n cael ei ddwyn i rym yng nghanol mis Rhagfyr ynghyd â’r ddeddfwriaeth gyfatebol mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Sylwadau

Mae Erthygl 9(7) yn diffinio "day-old chicks", am ryw reswm, fel unrhyw ddofednod llai na 72 awr oed; hynny yw, llai na thridiau oed. Fodd bynnag, adlewyrchiad o’r diffiniad yn Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn yw hwn ac felly mae wedi’i ddrafftio’n gywir.

Byddai’r Gorchymyn hwn hefyd wedi bod yn gyfle i gywiro’r gwallau sy’n bresennol yn y gorchymyn, The Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) (No 2) Order 2006, a fu’n destun adroddiad cynharach gan y Pwyllgor hwn. Yn anffodus, ni fanteisiwyd ar y cyfle i gywiro gwallau sy’n bodoli yn neddfwriaeth bresennol y Cynulliad Cenedlaethol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 16 Ionawr 2007